# Newyddlen demograffeg
# Llywodraeth Cymru, Medi 2020

## Amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol sy'n seiliedig ar 2018

Ddydd Llun 18 Mai 2020, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol hysbysiad ar ei gwefan yn hysbysu defnyddwyr eu bod wedi canfod gwall a oedd yn effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol sy’n seiliedig ar 2018.

Cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol wedi’u cywiro ar gyfer Cymru ddydd Iau 11 Mehefin (Saesneg yn unig). Mae'r amcanestyniadau dlwygiedig yn dangos tuedd wahanol yn y tymor hwy ar gyfer Cymru o’i chymharu â'r amcanestyniadau a gyhoeddwyd yn wreiddiol. Roedd yr amcanestyniadau gwreiddiol yn dangos gostyngiad amcanestynedig ym mhoblogaeth Cymru o 2025 ymlaen.

- Amcanestynnir y bydd poblogaeth Cymru yn cynyddu 2.7% i 3.22 miliwn erbyn 2028, ac yn gostwng 3.7% i 3.26 miliwn erbyn 2043
- Amcanestynnir y bydd nifer y plant o dan 16 oed yn gostwng 4.7% i 536,000 rhwng 2018 a 2028.
- Amcanestynnir y bydd nifer y bobl 16-64 oed yn cynyddu 0.2% i 1,927,700 rhwng 2018 a 2028
- Amcanestynnir y bydd nifer y bobl 65 oed a throsodd yn cynyddu 16.3% i 758,600 rhwng 2018 a 2028
- Amcanestynnir y bydd nifer y bobl 75 oed a throsodd yn cynyddu 29.3% i 378,100 rhwng 2018 a 2028

## Diwygio amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol yn seiliedig ar 2018

Cafodd amcanestyniadau diwygiedig o boblogaeth awdurdodau lleol yn seiliedig ar 2018 eu cyhoeddi ar 4 Awst 2020. Mae'r datganiad yn diwygio’r amcanestyniadau a gyhoeddwyd yn wreiddiol ar 27 Chwefror 2020. Mae hyn o ganlyniad i gamgymeriad yn amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn seiliedig ar 2018 (Saesneg yn unig). Mae rhagor o wybodaeth am y newidiadau ar gael yn y datganiad.

Mae'r amcanestyniadau yn nodi maint a strwythur oedran posibl y boblogaeth yn y dyfodol ar gyfer awdurdodau lleol Cymru yn ystod y cyfnod o 2018 i 2043.

Mae'r datganiad yn cynnwys amcanestyniadau ar gyfer awdurdodau lleol yn seiliedig ar 2018, gan gynnwys amcanestyniadau amrywiadol o'r boblogaeth, ac yn rhoi trosolwg eang o'r prif ganlyniadau.

Yn ystod y cyfnod o 2018 i 2028:

- amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu yn y mwyafrif o'r awdurdodau lleol
- yn yr awdurdodau lleol hyn yr amcanestynnir y bydd y cynnydd mwyaf: Casnewydd (7.2%), Bro Morgannwg (6.0%) a Phen-y-bont ar Ogwr (4.6%)
- amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn lleihau mewn pedwar o'r 22 o awdurdodau lleol
- yn yr awdurdodau lleol hyn yr amcanestynnir y bydd y lleihad mwyaf: Ceredigion (3.3%), Wrecsam (1.5%), Blaenau Gwent (0.7%) ac Ynys Môn (0.4%)

Byddwn yn cyhoeddi amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol sy'n seiliedig ar 2018 ar wahân. Byddwn hefyd yn cyhoeddi amrywiolion ychwanegol ar gyfer yr amcanestyniadau cyn gynted â phosibl.

## Diwygio amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol yn seiliedig ar 2018

Cafodd amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol yn seiliedig ar 2018 eu cyhoeddi ar 4 Awst 2020. Mae'r datganiad hefyd yn diwygio'r amcanestyniadau a gyhoeddwyd yn wreiddiol ar 27 Chwefror 2020, yn dilyn y camgymeriad yn amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn seiliedig ar 2018 (Saesneg yn unig) ar gyfer Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am y newidiadau ar gael yn y datganiad.

Mae'r amcanestyniadau yn rhoi amcan o nifer a chyfansoddiad aelwydydd yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae'r datganiad yn cynnwys amcanestyniadau ar gyfer awdurdodau lleol yn seiliedig ar 2018, gan gynnwys amcanestyniadau amrywiadol o aelwydydd, ac yn rhoi trosolwg eang o'r canlyniadau allweddol.

Yn ystod y cyfnod o 2018 i 2028:

- amcanestynnir y bydd cyfanswm nifer yr aelwydydd yng Nghymru tua 1.42 miliwn erbyn 2028, cynnydd o 4.4% yn ystod y cyfnod
- amcanestynnir y bydd nifer yr aelwydydd yn cynyddu mewn pump o'r 22 o awdurdodau lleol
- amcanestynnir y bydd y cynnydd canrannol mwyaf yn nifer yr aelwydydd ym Mro Morgannwg (cynnydd o 8.6%), Casnewydd (cynnydd o 8.6%) a Phen-y-bont ar Ogwr (cynnydd o 6.3%)
- amcanestynnir y bydd nifer yr aelwydydd yng Ngheredigion yn lleihau 1.6%.

Byddwn yn cyhoeddi amcanestyniadau aelwydydd parciau cenedlaethol sy'n seiliedig ar 2018 ar wahân. Byddwn hefyd yn cyhoeddi amrywiolion ychwanegol ar gyfer yr amcanestyniadau cyn gynted â phosibl.

## Amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer y DU, Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon: canol 2019

Ar 24 Mehefin 2020 cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol weddill yr wybodaeth am gydrannau'r newidiadau i'r boblogaeth ym mhob ardal leol.

Cyhoeddwyd y datganiad (Saesneg yn unig) hwn yn dilyn yr amcangyfrifon dros dro ar gyfer canol 2019 a gyhoeddwyd ar 6 Mai 2020. Ni wnaed unrhyw ddiwygiadau i'r amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer canol 2019.

## Amcangyfrifon aelwydydd

Disgwylir i'r amcangyfrifon aelwydydd ar gyfer canol 2019 gael eu cyhoeddi ym mis Medi

## Mudo rhyngwladol hirdymor

Ar 27 Chwefror, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ei hadroddiad chwarterol diweddaraf ar yr ystadegau mudo (Saesneg yn unig) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020. Mae'n dwyn ynghyd yr ystadegau ar fudo a gyhoeddir gan y Swyddfa Gartref, yr Adran Gwaith a Phensiynau, yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

- Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020, symudodd tua 313,000 yn fwy o bobl i'r DU, gan fwriadu aros am 12 mis neu fwy, nag a adawodd y DU (mudo net, y cydbwysedd rhwng mewnfudo ac allfudo)
- Dros y flwyddyn, symudodd tua 715,000 o bobl i'r DU (mewnfudo) a gadawodd tua 403,000 o bobl y DU (allfudo)
- Mae'r cynnydd mewn mewnfudo a mudo net yn cael ei ysgogi gan gynnydd yn nifer y gwladolion o'r tu allan i'r UE sy'n cyrraedd y DU am resymau astudio
- O'r rhai a oedd yn dod i'r DU, roedd 257,000 yn cyrraedd ar gyfer astudiaeth ffurfiol, gyda 458,000 yn cyrraedd am resymau gwaith, rhesymau teuluol neu resymau eraill.

Mae'r cyfnod casglu data o'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (IPS) yn cynnwys y cyfnod hyd at 16 Mawrth 2020. Ataliwyd yr IPS ar y dyddiad hwn oherwydd COVID-19.

Ni fydd amcangyfrifon mudo rhyngwladol ar gyfer Ebrill 2020 ymlaen yn cael eu mesur mwyach gan ddefnyddio'r IPS, yn dilyn ei atal oherwydd y coronafeirws. O fis Tachwedd 2020 ymlaen, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn bwriadu newid o ddefnyddio'r IPS a defnyddio data gweinyddol i ddarparu mesurau mudo newydd.

## Rheoliadau Cyfrifiad (Cymru) 2020

Cafodd Rheoliadau Cyfrifiad (Cymru) 2020 (Saesneg yn unig) eu gosod gerbron Senedd Cymru gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Rebecca Evans AS, ar 1 Mehefin 2020. Mae'r Rheoliadau'n nodi'r gweithdrefnau a'r trefniadau sydd eu hangen i gynnal Cyfrifiad 2021.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn cynnwys copïau enghreifftiol o holiaduron papur Cyfrifiad 2021 yn ogystal â disgrifiadau o'r cwestiynau a'r opsiynau ymateb ar gyfer yr holiadur ar-lein.

Daeth y Rheoliadau i rym ar 26 Mehefin 2020.

## Y Gymraeg

Ar 25 Mehefin 2019, cyhoeddwyd canlyniadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn o fis Ebrill 2019 hyd at fis Mawrth 2020.

Ar 14 Gorffennaf cyhoeddwyd prif ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer cyfweliadau a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020. Roedd y rhain yn cynnwys canlyniadau am allu pobl yn y Gymraeg yn ogystal â'u defnydd o'r Gymraeg gyda gwasanaethau lleol ac awdurdodau lleol.

## Manylion cyswllt

Ffôn: 0300 025 0373

E-bost: ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru